

Podlediad Ystâd Rhug v3

Will: Helo a chroeso i AHEAD OF THE FIELD, cyfres o bodlediadau a gyflwynir i chi gan NFU Mutual yn edrych ar sut mae ffermwyr yn tyfu eu busnesau yn y Dyfodol. Will Evans ydw i, dwi'n ffermwr ac yn rhedeg podlediad yma yng Ngogledd Cymru. Bydd y gyfres hon o bodlediadau yn edrych ar ffynonellau incwm newydd, modelau ffermio newydd, technoleg ffermio newydd a bydd ein rhifynnau cyntaf yn canolbwyntio ar ffermwyr sydd wedi gwneud rhywbeth yn wahanol, sydd wedi arallgyfeirio eu busnes ac sy'n edrych ar ffyrdd newydd i sicrhau eu dyfodol ffermio. Dwi fy hun wedi symud o fod yn ffermwr llaeth ar raddfa gymharol fach i gynhyrchu eidion, cnydau âr, uned wyau buarth, busnes byrnio contract ac ychydig o bodledu ar yr ochr, a beth mae hyn wedi ei wneud yw gwneud ein busnes yn gryfach ar gyfer y dyfodol. Yn ôl ein hymchwil, mae dros 60 y cant o fusnesau fferm wedi gwneud rhyw fath o arallgyfeirio tebyg, ac felly rydyn ni'n cychwyn y gyfres yma trwy fynd allan i gwrdd â rhai o'r bobl sydd wedi gwneud hyn, sydd wedi wynebu'r heriau ac sy'n ysbrydoli eraill gyda'u llwyddiant. Byddwn yn clywed eu hanesion, yn cerdded o amgylch eu ffermydd, clywed beth oedd yr heriau mwyaf iddynt, beth oedd yn rhaid iddynt ei drechu a gobeithio yn eu cael i adrodd rhai o'u cyfrinachau a gofyn beth maent yn feddwl yw'r cyfleoedd mawr. Byddwn hefyd yn siarad gyda'r arbenigwyr fydd yn gallu rhoi mewnwelediad a chynghor i ni am pa help sydd ar gael, os ydych chi'n ystyried arallgyfeirio eich busnes fferm eich hun.

Heddiw rydyn ni yn ystâd Rhug yng Nghymru. Mewn cyn lleied ag 20 mlynedd mae'r Arglwydd Newborough wedi mynd â hyn o fod yn fferm defaid a gwartheg dwy fil acer i fusnes deuddeg mil a hanner acer, yn cyflogi dros 130 o bobl, gyda busnes allforio brand rhyngwladol ac enw da arbennig am fwyd organig. Mae'n cynnwys gosod eiddo masnachol, creu p mewn. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r Arglwydd Newborough am ein tywys heddiw. Diolch yn fawr i chi am y croeso Syr.

ŵer adnewyddu

Felly, allwch chi roi hanes cryno i ni o Ystâd Rhug a'ch taith yn ystod y ddwy ddegawd ddiwethaf?

Arglwydd Newborough: Yn 1998, bu farw fy nhad, ac roedd rhaid i mi benderfynu ar y pryd beth oeddwn i am ei wneud gyda'r ystâd. Roedd yn weithrediad mewnbyn isel allbwn isel tan hynny, ac roeddwn i wedi bod yn bwyta bwyd organig trwy gydol y 90au, oedd yn anodd ei gael, ac mi gawson ni gyfres o achosion dychrynlyd gyda bwyd, felly dyna pryd y penderfynais i beth oeddwn i wir eisiau ei wneud oedd ffermio'n organig. O hynny, mae'r busnes wedi tyfu. Fe ddechreuon ni farchnata ein cynnyrch trwy Waitrose ac yn 2002 fe agorom beth ddechreuodd fel ein siop fferm, sef dwy fan: un yn gwerthu byrgers a'r llall yn gwerthu cig ffres, ar ffordd brysur mewn lleoliad da. Mi ddaethon nhw i fod yn llefydd prysur iawn, gyda phobl yn stopio ar eu ffordd i Eryri. Felly o hynny ymlaen wnaethon ni ddim edrych yn ôl, a dwi'n meddwl yn 2004 fe ddechreuon ni fynd â'n cig i Lundain a chyfanwerthu. Wedi hynny fe ddechreuon ni edrych ar allforio a mynd i Hong Kong, Macau ac yna Singapore, ac yn y blynyddoedd diweddaraf rydyn ni'n mynd i lefydd fel y Dwyrain Canol ac ychydig bach i Ewrop.

Felly yn syml mae'r busnes wedi tyfu o fferm cig eidion a defaid yn unig i eidion, defaid, ieir, tyrswen, gwyddau, ceirw ac ambell ych gwyllt.

Will: Ac oeddech chi wedi cynllunio'r cyfan ymlaen llaw neu a wnaeth ddatblygu'n naturiol, wrth i'r galw gynyddu?

Arglwydd Newborough: Wel, mynd gyda'r gwynt yn llwyr, na, fawr ddim gwaith cynllunio ond fe wnaethon ni weld bod galw gan gwsmeriaid. Mae'n si yna fe wnaethon ni sylweddoli fod lle da i fwydydd organig yn y dyfodol ac mae'r busnes wedi tyfu ar sail hynny mewn gwirionedd.

ŵr mai dyna

Will: A beth oedd y rhesymau gwreiddiol dros arallgyfeirio'r busnes?

Arglwydd Newborough: Yn syml, pan ddaeth y cyfle roeddwn i'n gwneud rhywbeth roeddwn i wir yn credu ynddo, rhywbeth roeddwn i'n angerddol amdano, dilyn hynny'n llwyr a'm cred mewn ffermio cynaliadwy oedd beth wnaeth fy anfon ar hyd y llwybr hwnnw.

Will: A sut ydych chi'n cadw trywydd ar yr holl wahanol fentrau a phethau sy'n digwydd?

Arglwydd Newborough: Dwi ddim! Na, na tydi hynny ddim yn wir. Dwi'n ffodus iawn bod gen i dîm gwych. Mae gen i nifer o reolwyr angerddol sy'n rheoli gwahanol sectorau'r busnes. Mae pob yn brofiadol yn beth mae nhw'n ei wneud a dwi'n dibynnu'n fawr arnynt a fwy na thebyg yn ymyrryd llawer gormod, ond dyna natur y bwystfil mae gen i ofn.

Will: Felly os cawn ni, beth am i ni fynd ar daith fach i gael golwg ar y lle?

Arglwydd Newborough: Ie, ffwrdd a ni i weld beth welwn ni.

Will: Felly yma yn y siop, rydyn ni wedi'n hamgylchynu gan yr holl gynnyrch posibl, dyna gownter y cigydd, pob math o gynnyrch ffres, yr holl gig o'r fferm; twrci, gwyddau, wrth baratoi ar gyfer y Nadolig. Tu ôl i mi, mae yna garhenni organig wedi eu gwneud o wllân o'r fferm a phob math o gynnyrch organig, mae yna fêl, sawsiau, bisgedi mi welaf, popeth allwch chi feddwl amdano, ac rydyn ni yma gyda'r Arglwydd Newborough ac mae am gyflwyno rhai o'r staff yma i ni.

Arglwydd Newborough: Aelodau allweddol o'r staff, dyma Graham Webster sef ein rheolwr adwerthu a'i gynorthwydd Amy Kelman sy'n helpu rhedeg y busnes yma. Nhw sy'n rhedeg y siop fferm, y bistro, y cludfwyd ac mae nhw hefyd yn gyfrifol am y bwyty gyrru i mewn.

Will: Felly yn wreiddiol fe ddechreuodd hyn fel fan, ar ochr y ffordd, ac edrychwch ar ble mae pethau nawr. Rhaid ei fod yn cynnwys amrywiaeth o wahanol bethau?

Graham: Mae ganddon ni lawer o gynnyrch nawr. Fe ddechreuodd fel ffordd i gefnogi'r fferm a gwerthu'r cigoedd ar y cownter er mwyn gallu cefnogi'r anifeiliaid ar y fferm. Ond mae'r siop gyfan wedi tyfu o amgylch hynny nawr ac mae gennym ni ddetholiad llawn o gynnyrch, llawer yn organig, mae ein gwinoedd yn organig, y mêl y crybwylloch, mae hwnnw wedi ei wneud ar yr ystâd. Mae yna dipyn o seidr a chwrw lleol, rydyn ni'n cefnogi llawer o gwmnïau lleol hefyd, llawer o gawsiau Cymreig, mêl, jam, popeth.

Will: Beth sy'n gwerthu orau yma? Beth sy'n denu pobl trwy'r drws?

Graham: Mae ein cig yn dal i werthu'n dda iawn, ac eleni rydyn ni wedi gweld gwirioneddol yn ein caws a phasteiod. Dwi'n meddwl fod pobl yn chwilio am safon ychydig yn well bellach, felly nid dim ond beth allwch chi ei gael yn yr archfarchnad. Mae nhw eisiau pwynt gwahanol, felly mae nhw'n dod aton ni am fod gennym ni bethau gwahanol ar gael, ac ychydig yn fwy arbennig, yn unigryw.

Will: Beth yw'r heriau mwyaf i chi o fynd o ffermio i adwerthu?

Arglwydd Newborough: Mae'n gamgymeriad i feddwl y gallwch, y gall ffermwr, newid i fod yn adwerthwr. Dwi'n meddwl eich bod angen arbenigedd gwirioneddol a dydy o ddim byd tebyg i ffermio, felly mae'n rhaid dysgu'n gyflym os nad ydych chi'n gwybod beth ydych chi'n ei wneud.

Will: Beth oedd y pethau mwyaf oedd rhaid i chi ddysgu ar hyd y ffordd?

Arglwydd Newborough: Dwi'n meddwl i reoli'r manteision, rheoli costau llafur ac yn

gyffredinol i ddarparu rhywbeth roedd y cwsmer ei eisiau ac mae'r cwsmeriaid nawr yn fwy uchelgeisiol ac eisiau gwell. Felly rhaid i chi feddwl ymlaen o ran sut ydych chi'n mynd i wella pethau wrth fynd ymlaen a chadw'n gyfredol.

Will: Pa sgiliau oedd rhaid i chi ddod i mewn â nhw o'r tu allan?

Arglwydd Newborough: Yn sicr sgiliau adwerthu a hefyd y sgiliau arlwyo. Dyna oedd y prif bethau ar ben y bwtsiera. Wel, mae ganddon ni unarddeg o gigyddion yn y ffatri dorri yma mae ganddon ni gigyddion cownter, cigyddion ym marchnad Borough, mae sgiliau bwtsiera lleol yn bwysig iawn.

Will: Dwi'n cymryd fod marchnata yn beth mawr hefyd?

Arglwydd Newborough: Marchnata, ie marchnata. Roedd rhaid i ni feddwl am greu brand. Felly roedd datblygu'r brand yn gynnar yn amhrisiadwy. Ac o hynny ymlaen rydyn ni wedi gallu adeiladu ar y brand ac adeiladu ar y ffaith ein bod yn cynhyrchu cynnyrch iachus o safon.

Will: Ac a oedd yn fanteisiol eich bod yn cynyddu'n raddol yn hytrach nag adeiladu'r siop lawn yn syth?

Arglwydd Newborough: Wel, roedd yna un neu ddau bwynt brig oedd yn dipyn o her, fel y tro cyntaf i ni fynd i Lundain i gyfanwerthu. Fe aethon ni at chwe chwsmer posibl ac roedd ganddon ni bum cwsmer gweithredol erbyn diwedd y dydd. Ychydig o banig wedyn, wyddoch chi, rydyn ni'n mynd i fwtsiera ar gyfer pum bwyty yn Llundain, a logisteg sut i'w gael i Lundain, felly dipyn o heriau ar hyd y ffordd a... ond delio efo pethau wrth iddyn nhw godi, mi fyddwch chi'n llwyddo rhywsut.

Will: Rydyn ni'n pasio'r cludfwyd, mae'n edrych yn le prysur iawn. Pa fath o niferoedd sy'n galw yma?

Arglwydd Newborough: Rydyn ni'n cael oddeutu hanner miliwn o bobl y flwyddyn yn dod i'r ganolfan yma bellach.

Will: Waw! Ac yma mae yna lechen ar y wal i ddweud i'r Tywysog Charles agor y lle yn 2013?

Arglwydd Newborough: Do wir. Mi gawson ni ddiwrnod gwych. Fe ymwelodd â'r fferm, mynd ar daith o'r fferm ac yna fe agorodd yr adeiladau i gyd, ac ers hynny rydyn ni wedi bod yn darparu ar gyfer y cartrefi Brenhinol ers chwe blynedd, a mis Ebrill eleni fe dderbyniom y Warant Frenhinol.

Will: Ac mae Tywysog Cymru, yn amlwg, yn gefnogwr brwd o gynnyrch organig.

Arglwydd Newborough: Mae'n deall llawer mwy am gynnyrch organig nag y gwna i fyth, a dwi'n edmygwr mawr ohono.

Will: Felly rydyn ni newydd ddod i mewn i'r Bistro Bison Grill, rhaid od creu cyfres o fwytai wedi ychwanegu cyfres newydd o gymhlethdodau?

Arglwydd Newborough: Do wir, yn sicr. Wel fe ddechreuon ni, fel y soniais, gyda'r cludfwyd allan o'r faniau a phan wnaethon ni adeiladu'r siop fferm yma yn 2011, dyma feddwl y byddai'n syniad da i gael bwyty. Mi ges i gogydd cymwysedig i mewn, ac fe ddaeth yma, creu safon a stamp hollol newydd ar gyfer y Bistro ac mae wedi tyfu ers hynny.

Will: Arbennig. Wedyn, dwi'n si bwyty?

ŵr bod yna o

Arglwydd Newborough: Oes, mae hwn yn ffynhonnell fawr o gyflogaeth, ac mae ganddon ni tua 17 o bobl yn gweithio yn y gegin ac wedyn blaen t ŷ hefyd.

[S ŵn cefndir o'r bwyty]

Will: Amy, chi ydi'r rheolwr cyffredinol cynorthwyol yma, ydych chi'n gweld dipyn o bobl yn dod yn ôl pob Sul am ginio dydd Sul? Ydych chi'n gweld pobl leol, neu dwristiaid, neu'r amrediad llawn am wn i?

Amy: Mae'n dipyn o gyfuniad, yn amlwg dros yr haf mi fydd yna dipyn go lew o dwristiaid, a hyd yn oed trwy'r gaeaf i fod yn onest am ein bod ar y briffordd i Eryri, felly mi fydd yna lawer o dwristiaid, ond dipyn o deuluoedd lleol hefyd, yn sicr mae ganddon ni gwsmeriaid rheolaidd ar ddydd Sul sy'n dal i ddod yn ôl. Rydyn ni hefyd yn croesawu c ŵn, felly mae ga lawer o gwsmeriaid rheolaidd sy'n dod yma am nad oes llawer o lefydd i fynd gyda ch ŵn yn yr ardal, felly mae nhw'n dod yn ôl atom.

Will: Felly roeddech chi'n gweini byrddau yma hefyd, rhaid ei bod yn brysur iawn yma ar adegau penodol o'r flwyddyn?

Amy: O, yn sicr. Yn arbennig dros wyliau'r haf, Nadolig, rydyn ni'n cynnal dipyn o ddigwyddiadau gyda'r nos hefyd trwy'r flwyddyn. Ond ie, ac mae cinio dydd Sul yn boblogaidd iawn, mae'n brysur iawn, iawn.

Will: Felly mi wnawn ni adael y gwleddwyr yn y bistro. Os nad oes gennych chi amser i stopio yma neu hyd yn oed gael cludfwyd drws nesaf, trwy'r ffenest mi allwch chi alw yn yr adran gyrru i mewn newydd, felly beth am gymryd golwg ar hynny.

Cyn i ni fynd ymlaen gyda gweddill y rhifyn, efallai yr hoffech wybod fod NFU Mutual wedi cyhoeddi adroddiad ar arallgyfeirio y gallwch ei lawrlwytho nawr. Ewch ar-lein a chwilio am NFU Mutual Diversification ac os ydych chi'n mwynhau'r podlediad yma, gwnewch yn si ŵr eich bod tanysgrifio fel na fyddwch yn colli'r un rhifyn. Iawn, yn ôl i'r rhaglen.

Cynorthwydd gyrru i mewn: Helo, croeso i fwyty cerbydau Rhug, gai gymryd eich archeb?

Will: Rydyn ni yma'n sefyll yn rhan fwyaf newydd y busnes, y bwyty gyrru i mewn. Beth wnaeth i chi feddwl am y syniad?

Arglwydd Newborough: Rydyn ni eisoes yn brysur iawn ar gludfwyd, ac mi welais Starbucks a Costa yn agor llefydd gyrru i mewn a meddwl rydyn ni mewn lleoliad mor wych yma gyda'r briffordd brysur, roedd yn estyniad amlwg i beth ydyn ni eisoes yn ei wneud. Felly dyma ni, mae'n ychwanegiad arall i ganolfan fwyd Rhug.

Will: Ai dyma'r cyntaf o'i fath yn y wlad?

Arglwydd Newborough: Ie wir. Hynny yw, hyd y gwn i dyma'r unig fwyty gyrru i mewn ar fferm yn y wlad ac yn sicr mae wedi denu dipyn o ddiddordeb.

Will: Felly efallai'ch bod wedi dechrau ffasiwn newydd?

Arglwydd Newborough: digon posibl.

Gareth: Fi yw Gareth Jones, Rheolwr Fferm yr Ystâd yn Rhug.

Will: Gareth, rydych chi wedi bod yn rheolwr fferm yma ers 25 mlynedd. Rydych chi wedi

gweld dipyn o newid yn y cyfnod yna?

Gareth: Un neu ddau, do. Pan ddechreuais i yma, roeddwn i gyda thad yr Arglwydd Newborough ac roedd y ffermwyr yn gweithio ar sail fwy confensiynol bryd hynny, dim ond defaid ac ychydig bach i dir âr a dim gwartheg o gwbl.

Will: Felly mae wedi bod yn waith dysgu i chi'r un fath â phawb arall?

Gareth: Wel rhan fwyaf o'r staff i ddweud y gwir, wyddoch chi. Dwi'n rhan o'r staff fferm sefydlog, fi oedd yr olaf i ymuno, felly mae yna dipyn o staff sydd wedi bod yma dipyn hirach na fi. Felly rhwng tua chwech ohonon ni mae ganddon ni wasanaeth cyfunol o tua 250 mlynedd.

Will: Mi fydddech chi angen cryn ddealltwriaeth o'r holl wahanol fathau o dda byw sydd gennych chi yma?

Gareth: Ie, dwi'n meddwl fod y ffermydd cyfuniad traddodiadol yma yn dod yn llai cyffredin, mae pobl yn arbenigo mwy ac yn amlwg mi allwch chi weld y cyfyngiadau yn hynny ond, wyddoch chi, mae fferm sy'n gwbl hunan gynaliadwy, fferm organig, angen bod yn fferm gytbwys. Y cydbwysedd rhwng defaid, gwartheg a chnydau a dyna beth sydd gennych chi yma, wrth gwrs.

Will: Ac mae Merfyn Roberts wedi ymuno â ni hefyd, sef yr asiant NFU Mutual lleol. Helo Merfyn. Rydych chi'n adnabod yr ystâd yma'n dda, pam ydych chi'n meddwl eu bod wedi llwyddo cymaint?

Merfyn: Ie wir, rydyn ni'n adnabod yr ystâd ers tipyn o amser, rydyn ni wedi bod â chyswllt gyda Rhug ers bron i 30 mlynedd, a'r newid mwyaf ydyn ni wedi ei weld yn hanes diweddar yr ystâd yw'r arallgyfeirio. Dwi'n meddwl mai beth mae nhw wedi ei wneud, yn llwyddiannus iawn yma, yw gwneud y gorau o'u cryfderau. Mae'n lleoliad gwych yma ar hyd yr A5, a beth arall mae nhw wedi ei wneud yw creu tîm o bobl o'u cwmpas. Mae'n amlwg iawn ei fod yn dîm sy' cael ei feithrin ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i economi leol y dref, mae'n denu swyddi i'r ardal.

Will: Iawn, a beth all ffermwyr eraill ddysgu o hyn?

Merfyn: Peidio bod ofn y newidiadau, dwi'n meddwl. Dwi'n credu bod dipyn o ffermwyr yn yr ardal yma, cig eidion a defaid yn draddodiadol, yn gyndyn iawn i newid. A dwi'n meddwl gyda'r posibilïad o Brexit a'r newidiadau eraill i ddod, dwi'n credu y bydd angen i ffermio edrych ar arallgyfeirio, symud ymlaen ac mae yna gyfleoedd gwych yna.

Will: Pa gyngor a help ydych chi wedi gallu darparu iddyn nhw yma, ar hyd y blynyddoedd?

Merfyn: Wel rydyn ni wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Arglwydd Newborough a'r tîm o bobl yma ar yr ystâd, yn edrych ar bethau fel yr yswiriant yn amlwg, gwneud yn si w'r bod yr yswiriant yn briodol. A hefyd mae ganddon ni dîm o wasanaethau rheoli risg sydd wedi gweithio'n agos gydag ystâd Rhug, oherwydd mi allwch chi ddychmygu gyda'r holl arallgyfeirio yma yn digwydd ar y fferm, mae'n bwysig iawn edrych yn ofalus ar iechyd a diogelwch ac rydyn ni'n gweithio'n agos ar ochr yna i bethau. Beth sydd wir yn ategu popeth yw angerdd yr Arglwydd Newborough tuag at yr amgylchedd, cynnyrch organig a chefnogi busnesau lleol a chael staff lleol mewn gwaith.

Will: Diolch yn fawr Merfyn.

Arglwydd Newborough: Felly dyma ni yn y swyddfa. Dyma'r adran werthiant ac mi fyddwn ni'n cymryd archebion yn ddyddiol ar gyfer y busnes cyfanwerthu ac mae gen i dîm yma sy'n ddiwyd iawn, felly os caf i gyflwyno Joan.

Joan: Felly yma rydyn ni'n cymryd archebion pob bore i'r danfon i Lundain i rai o'r gwestyau a bwytaf mawr yn Llundain ac i delis annibynnol. Rydyn ni hefyd yn delio gyda'r holl ddanfoniadau i gartrefi a'r allforio i Singapore, Dubai, Hong Kong, Croatia ac yn fwy diweddar i'r Iseldiroedd a thu hwnt. Felly yn y bore mae'n brysur iawn yma gyda phobl yn cymryd archebion yn siarad gyda chogyddion. Mae'n wasanaeth personol iawn. Rydyn ni'n hoffi siarad efo'n cwsmeriaid i gyd p'un a ydyn nhw yma neu yn Hong Kong. A dyna sy'n ein gwneud yn wahanol iawn i ddweud y gwir. Pobl sydd wedi gweithio, mae nhw'n dueddol o aros yma. Rydyn ni'n swyddfa fodlon iawn ac mi welwch gyda'r cogyddion neu bobl sy'n gweithio mewn siopau eu bod yn dueddol o symud o gwmpas ac mi fyddwch chi'n siarad gyda rhywun yn Llundain ac wedyn ymhen chwe mis mi fyddwch yn siarad efo'r un person yn Hong Kong, ac mae'r rhai brwd, y rhai sy'n dod i ymweld â'r fferm, mi welwch chi nhw'n symud ymlaen sy'n beth braf.

Will: Felly wrth baratoi ar gyfer y Nadolig nawr, y tymor prysur ar gyfer twrci, pa mor dymhorol yw'r busnes ar gyfer pethau felly?

Louise: Mae yna rywbeth newydd a diddorol trwy'r flwyddyn. Yn gynharach yn y flwyddyn, mi fydd cig oen y gwanwyn yn dod, ac wedyn mi fyddwn ni'n symud ymlaen i oen heli. Ond ie, twrci yw popeth ar hyn o bryd. Felly ar y fferm mi fydd pethau'n dechrau tua Mehefin, Gorffennaf, wrth baratoi. Ond o ran ein swyddfa gwerthiant, mae pethau'n prysuro o fis Medi. Mae pethau'n mynd yn wyllt wirion ac yn cynyddu a chynyddu. Mae gen i graff o fy mlaen i nawr yn edrych ar gobeithio sut y bydd yn mynd i fyny a bydd y gwaith yn y swyddfa yn prysuro wrth i'r archebion ddod i mewn.

Will: Fyddech chi'n cael llawer o bobl yn archebu neu gigyddion a phethau felly yn archebu nifer fawr, neu ai teuluoedd unigol yn prynu adar unigol fydd hi gan fwyaf?

Louise: Mae'n gymysgedd gwirioneddol. Mae ganddon ni lawer o gwsmeriaid cyfanwerthu y byddwn ni'n darparu iddyn nhw bob blwyddyn ac mi fyddan nhw'n rhoi'r archeb i mewn yn gynnar felly mi allwn ni gynllunio ar gyfer hynny. Ac mi fydd ganddon ni dipyn o gwsmeriaid unigol hefyd, dipyn fydd yn dod i mewn dim ond dros y Nadolig. Felly mae nhw'n dod yma ar gyfer eu cinio Nadolig, eu cig Nadolig. Felly cwsmeriaid tymhorol iawn sy'n esbonio'r cynnydd yma mewn gwerthiant oherwydd efallai y byddan nhw'n archebu ambell beth trwy'r flwyddyn, ond wedyn mae yna lwyth o archebion penodol iawn.

Will: Dwi'n si pob blwyddyn, yn draddodiad y Nadolig.

ŵr gyda theulu

Louise: Ie. Ac wrth i'r busnes yma dyfu yn fenter fwy, mae wedi dod yn debyg i ddiwrnod allan i'r teulu. Fe wyddoch chi y byddan nhw'n dod i gasglu'r twrci a chael golwg o amgylch y siop. Mae yna le i bawb grwydro o gwmpas. Ie. Felly mae'n ddigwyddiad braf ac mae'n bleser eu gweld. Maen neis i ni gwrdd â'n cwsmeriaid a'u gweld yn dod i'r fferm.

Will: Dwi gyda Gary, sef y rheolwr cynhyrchu yma yn y ffatri dorri. Beth yw'r amrywiaeth o anifeiliaid sydd yma ar y fferm, ar gyfer cig?

Gary: Iawn, beth ydyn ni'n ei wneud yw cig oen, Aberdeen Angus, gwartheg. Rydyn ni'n gwneud defaid. Mae ganddon ni ddefaid heli ar ein fferm yng Nghaernarfon. Rydyn ni'n gwneud porc, ieir, tyrcwn, gwyddau, mae ganddon ni gwingod, mae ganddon ni ffesant, mae ganddon ni gig carw, yr holl adar helwriaeth ar y safle, felly mae'n eithaf amrywiol.

Will: Felly popeth allech chi ddychmygu.

Gary: Ie, yn amlwg rydyn ni'n hoffi bod felly oherwydd yn amlwg mae llawer o'n cwsmeriaid eisiau bod yn wahanol iawn, a beth ydyn ni'n ei gynhyrchu ac os ydyn nhw ddim eisiau cig

gwyn gallan nhw gael cig coch. Felly mi hoffem ni fod yno i wneud yn si ~~allwngni~~
ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid 52 wythnos o'r flwyddyn.

Will: Ydi hi'n anodd cadw cyflenwad cyson?

Gary: Felly beth fyddwn ni'n ei wneud, un o fy mhrif swyddi yw fy mod i'n gweithio gyda'r
cogyddion, felly yn siarad gyda'r cogyddion am beth mae nhw eisiau a beth sy'n digwydd ydi
mi fyddan nhw'n dweud dwi eisiau cig oen. Wedyn mi ydan ni'n gwneud yn si ~~wr bod gand~~
ni gig oen am dri mis o'r flwyddyn, y toriad penodol yna o gig oen mae nhw eisiau ac wedyn os
nad ydi o ar gael mi fyddwn ni'n sgwrsio efo nhw ac efallai'n newid eu meddyliau i fynd am
rywbeth arall. Ond mae angen cael y sgwrs yna efo cwsmeriaid i wneud yn si ~~wr bod lefel y~~
gwasanaeth yn gant y cant.

Felly os ydi hynny'n iawn mi ai a chi i'r ystafell dorri.

Will: Ie, mi fyddwn i wrth fy modd yn ei gweld.

Mae yna resi o garcasau yn crogi yma, pob math o gigoedd, mae yna focsys, cewyll, popeth
posibl. Mae'n oer iawn, iawn, fel y disgwyl. Ac mae yna gryn dipyn yn digwydd yma.

Gary: Os byddwch yn cerdded i mewn ar fore Llun, fwy na thebyg bydd yna wyth i 10 carcass
eidion yn hongian yma. Wedyn 50 i gant o ddefaid. Yn amlwg ieir, wel mae yna chwe chant o
ieir oherwydd wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen mi fyddan nhw'n lleihau yn amlwg. Felly does
yna ddim eidion ar ôl, ychydig iawn o oen ar ôl oherwydd rydyn ni wedi ei dorri i lawr a'i
werthu. Dydd Llun ydi pryd fydd y danfoniadau yn dechrau dod i mewn. Mae ganddon ni ladd-
dy, tua milltir i fyny'r ffordd, felly mae'r anifeiliaid i gyd yn dod oddi ar y fferm ar ddydd
Gwener, mynd i'r lladd-dy, eu lladd yn barod i ni eu proses ac yn dod yn ôl i ni ar fore Llun.

Will: Dim ond milltir i ffwrdd, felly allech chi ddim cael dim byd mwy lleol.

Gary: Mae'n filltir ar ymylon yr ystâd. Felly ydi, mae'n wych i ni am ei fod yn ein helpu,
oherwydd gydag unrhyw filltiroedd bwyd, mae'n ein helpu ni i fod yn rhagweithiol a cheisio
rhoi llai o straen ar yr anifail, felly yn helpu gofalu am y gwartheg a gofalu am ein cig.

Will: Ac mae hynny' rhywbeth mae cwsmeriaid yn ei drafod mwy hefyd, rhywbeth mae pawb
yn fwy ymwybodol ohono.

Gary: Ie, mae pawb eisiau gwybod o ble mae wedi dod, sut ydych chi'n ei drin, beth ydych
chi'n ei wneud gyda hyn ac ar ddiwedd y dydd dyna'r peth pwysig. Ac i ni, mae'n allweddol.

Will: Mae cynaliadwyedd i weld yn greiddiol i'r busnes?

Gary: Ie wir. Ond mae llawer o bobl eisiau hynny, mae nhw eisiau deall beth mae nhw'n ei
fwyta, ei fod wedi dod o fferm gynaliadwy ac mae'r bobl yno'n gyfrifol yn gofalu am yr
amgylchedd cymaint â phawb arall. A dyna beth ydyn ni'n ei wneud.

Arglwydd Newborough: Pan dwi allan yn siarad gyda chwsmeriaid, mi fyddwch chi'n cael
rhywun fel gr ~~o'u cynnyrch a fodd yn~~ gyda chyfarw
gynaliadwy. Felly, mae'n allweddol ac mae'n dod gan gwsmeriaid yn Llundain a phobman,
cwsmeriaid o'r radd flaenaf, gallwch chi fynd i siop organig yn Singapore ble mae popeth yn
organig ac rydyn ni'n ceisio mynd â'r brand ni i bobman.

Will: Wel, mae'r brand yn drawiadol iawn hefyd, rydych chi'n ei weld ar unwaith. Mae hynny'n
rhywbeth rydych chi wedi ei ddatblygu ar hyd y blynyddoedd yn amlwg?

Arglwydd Newborough: Un o'r pethau wnaethon ni ddysgu'n gynnar iawn, wrth ddatblygu'r

brand, yw i'w gael yn weladwy iawn ble bynnag posibl, felly mi welwch yma fod y cig, mae'r cig wedi mewn paced lapio poeth gyda'r brand yna arno, felly bydd pwy bynnag sy'n agor y bocs yma yn cael ei daro gan y brand. A dyna beth mae nhw'n ei gofio, mae nhw'n cofio Rhug, mae nhw'n cofio'r arfbais.

Will: A oes yna unrhyw gigoedd rydych wedi gweld cynnydd mawr yn y galw amdanyn nhw?

Gary: Oes, lot o ddefnod. Ie, mae ein cig gwyn wir wedi mynd, oherwydd roedd yn ymddangos i fod yn gynnyrch iachach, wyddoch chi. Ac yn amlwg, mae hynny'n un peth sydd wir wedi symud ymlaen.

Will: A beth am y cig carw, mae yna gryn dipyn o sôn am gig carw fel cig isel mewn colesterol?

Gary: Ie, mae cig carw yn amlwg yn ei dymor ar hyn o bryd, yn amlwg gyda chyw iâr mae hynny trwy'r flwyddyn, ond mae carw yn ei dymor ac mi fydd yn mynd yn boblogaidd iawn, oherwydd mae'n ymddangos i fod yn gig llai brasterog, sy'n fwy iachus i'r rhai sy'n cadw llygad ar hynny ar hyn o bryd.

Will: Ac wrth baratoi ar gyfer y Nadolig, tyrcwn, gwyddau?

Gary: Ie, bydd twrci'n brysur hyd at y Nadolig. Mae gennym ni fil o dyrwyn ar y safle. Mae nhw wedi bod yma gyda ni ers Mehefin. Felly fel y gwelsom, mae yna dipyn o le yn yr oergell ar hyn o bryd. Mi fydd pethau'n ddiddorol wrth i ni geisio cael y cyfan i ffitio mewn, ond mi ddown i'r lan yn y pen draw.

Will: Bwtsieraeth, mae'n waith crefftus iawn. Felly dwi'n tybio eich bod yn darparu hyfforddiant i bobl leol?

Gary: Rydyn ni'n darparu hyfforddiant. Rydyn ni'n gobeithio agor academi, academi bwtsieraeth yma ar y safle, sydd â thipyn o bobl, bydd dipyn o bobl ifanc yn gallu dod i mewn a dechrau dysgu sut i fod yn gigydd.

Will: Gyda ni nawr mae Emma sef y gweinyddwr eiddo yma yn ystâd Rhug. Pa fath o ynni adnewyddadwy sydd gennych chi yma?

Emma: Ie, wel mae ganddon ni fwy neu lai'r holl dechnolegau. Mae ganddon ni solar, gwynt, hydro a hefyd cryn dipyn o bympiau gwres ffynhonnell aer yn rhai o'r eiddo preswyl. A hefyd mae ganddon ni un boeler peledi biomas.

Will: Iawn, felly mae hynny'n pweru'r fferm gyfan yma?

Emma: Wel, mae'n amrywio. Gyda'r rhan fwyaf o'r technolegau rydyn ni'n cynhyrchu ac yn allforio'r p
ganddon ni arae solar sy'n cyflenwi swyddfa'r ystâd a'r un sydd hefyd wedi ei gysylltu i'r busnes siop y fferm. Ac wedyn bydd unrhyw beth dros ben yn mynd i'r grid.

ŵer yn syth i'r

Will: Felly rydych chi hefyd yn rheoli'r gosodiadau ac eiddo masnachol yma ar yr ystâd. Faint o eiddo fydd gennych chi i gyd?

Emma: Dwi'n meddwl bod cyfanswm gosodiadau yn tua 170, sy'n cynnwys tua 25 o fythynnod yma o amgylch Rhug ei hun a hefyd y saethu masnachol, tir fferm tenant hyd at y gerddi, cryn dipyn o amrywiaeth. Mae yna hefyd gwpwl o unedau diwydiannol mawr, ac ambell gyfleuster llai ac ati o gwmpas y lle.

Will: Felly mae rheoli hynny i gyd yn fusnes ynddo'i hun, mewn gwirionedd?

Emma: Ydi. Ie. Mae angen cynnal a chadw popeth, mae gan bopeth elfen o drosiant ac mae angen rhywfaint o gynllunio.

Will: Ac mae yna hefyd dipyn o rostir a choetir yma, felly sut ydych chi'n mynd ati i reoli rhywbeth felly?

Emma: Ydi. Felly, mi allwch chi werthfawrogi ei fod yn gynefin drud i'w gynnal, ond rydyn ni'n cymryd cam yn ôl ac yn edrych ar ased, *eto*, gan benderfynu beth arall allwn ni ei gynhyrchu o'r ased yna. Ydyn ni'n edrych ar ailsefydlu rhywbeth fel saethu grugieir, er enghraifft? Efallai'n datblygu teithiau adar? A allai'r ddau beth yna gyd-fynd, wyddoch chi, ffitio gyda'i gilydd? Hefyd, rydyn ni'n cynnal arbrawf fychan, yn edrych ar wasanaethau ecosystemau a sut allwn ni fasnachu'r gwasanaethau hynny. Felly mae hynny'n rhywbeth yr ydyn ni'n gobeithio ei ariannu trwy gronfa newydd Llywodraeth Cymru, y Gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant.

Will: Beth sydd wedi bod yn amlwg wrth edrych o amgylch y lle yma yw, y lefel uchel o ofal tuag at nid yn unig y da byw a'r anifeiliaid, ond hefyd y tir ei hun a'r amgylchedd yma, ydi hynny'n rhywbeth sy'n ganolog iawn i'r busnes yma?

Emma: Ydi wir. Mae ethos yr Arglwydd Newborough o gynaliadwyedd yn cyrraedd pob rhan. Ond rhaid i ni gadw'r elfen fasnachol yn ein meddyliau bob tro, neu fel arall fyddwn ni ddim yn gallu parhau gyda'r gwaith yma. Yna anfodus, mae'r ddau beth yna angen dod ynghyd ac weithiau mae nhw'n cyd-fynd yn hapus iawn.

Will: Ie, dwi'n meddwl y bydd pob ffermwr yn gwranddo yn cytuno efo hynny.

Will: Arglwydd Newborough, pa gynlluniau eraill sydd gennych chi ar y gweill i arallgyfeirio?

Arglwydd Newborough: Dwi'n meddwl mai'r peth mwyaf i ddod fydd creu nwyddau gofal y corff cosmetig yn defnyddio brand Rhug, a'r syniad tu ôl i hynny yw fy mod i eisiau creu brand gyda stori. Defnyddio'r teimlad o'r amgylchedd sydd ganddon ni o'n cwmpas, y organig, y ffaith bod ganddon ni awyr iach, mae ganddon ni aeron naturiol yn tyfu yn y llwyni, perllysiau o'n cwmpas o amgylch yr eiddo ac i gynnwys y rheiny mewn detholiad newydd o nwyddau cosmetig y gallaf fynd â nhw i'r farchnad ar sail byd eang.

Will: Mae'n ymddangos i fod yn rhywbeth naturiol wrth i chi sôn amdano felly?

Arglwydd Newborough: Wel, dwi'n gobeithio. Mae pawb yn meddwl mod i'n hurt. Dwi'n meddwl ei fod yn golygu defnyddio'r un egwyddorion rydyn ni eisoes yn defnyddio i werthu ein cig, yn syml gwerthu cynnyrch yr ydych yn credu ynddo. A gwerthu cynnyrch gyda stori a gwerthu cynnyrch sydd wedi ei gynhyrchu o bosibl yn defnyddio cynhwysion lleol a dweud wrth y cwsmer am yr amgylchedd ac o ble mae'r cynnyrch yn dod.

Will: Beth ydych chi'n meddwl ydi'r cyfle mawr nesaf i ffermwyr wrth arallgyfeirio?

Arglwydd Newborough: Dwi'n meddwl bod rhaid i ni arallgyfeirio i oroesi erbyn hyn. Y twf mwyaf dwi'n ei weld ar gyfer yr adran cigoedd yw'r dewis iachus, fel cig carw, ychen. Felly rydych chi'n edrych ar gig coch yma sy'n llai brasterog, gyda mwy o fitaminau a mwynau, 50 y cant yn uwch o ran omega 3 na chigoedd confensiynol ac mae nhw hefyd yn iachach i fwyta na physgod neu gyw iâr.

Will: Ac a ydych chi'n awyddus i ddal i dyfu ac arallgyfeirio am rai blynyddoedd, neu ydi hi'n bwysicach i sicrhau a gwella beth sydd gennych chi?

Arglwydd Newborough: Dwi'n meddwl mai fy uchelgais erioed oedd creu busnes cadarn i'w basio ymlaen i'r genhedlaeth nesaf, a rhywbeth sydd hefyd yn garedig i'r amgylchedd, fel

rhywbeth i gredu ynddo. Ar ddiwedd y dydd, rydyn ni'n cystadlu ar lwyfan byd eang, ac mae'n llawer, llawer gwell gennym fod yn gynhyrchwr arbenigol cynnyrch cynaliadwy, yn hytrach na chystadlu ar sail pris. A dwi'n meddwl bod ganddon ni rhywbeth arbennig iawn yma.

Will: Felly cyn i ni fynd, oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gyngor terfynol i unrhyw ffermwyr eraill allai fod yn ystyried arallgyfeirio a dilyn eich esiampl?

Arglwydd Newborough: Dwi'n meddwl yn gyntaf oll, rhaid i chi feddwl beth mae'r cwsmer yn mynd i fod eisiau a gwybod beth fydd eisiau yn y dyfodol. Dwi'n meddwl bod angen stori arbennig. Rhaid i chi gael brand a rhaid i chi gredu, a rhyw fath o weledigaeth o ran ble ydych chi'n mynd. Chwiliwch am gyngor, ble bynnag gallwch. Ewch ac edrychwch ar beth mae pobl eraill yn ei wneud a dysgu o'u camgymeriadau. Dwi'n meddwl os oes un pwynt da i'w ddysgu o ymweld â rhywle arall, a'i fabwysiadu i'ch busnes newydd, mae'n werth ei wneud.

Will: Wel, dwi wedi bod yn gyrru heibio am flynyddoedd, ac yn galw i mewn ers ei fod yn ddwy fan ar ochr y ffordd, felly mae'n wych cael taith dywysedig heddiw. Dwi wir wedi mwynhau a beth sy'n amlwg yw eich gofal chi a'r holl staff a'r ymdeimlad o dîm, sy'n wych. Felly diolch yn fawr i chi am ddangos ystâd Rhug i ni Arglwydd Newborough, a phob dymuniad da i chi ar gyfer y dyfodol.

Arglwydd Newborough: Diolch.

Os ydych wedi eich ysbrydoli i ddysgu mwy am arallgyfeirio, sut i'w wneud a pha gyngor sydd ar gael i chi, mae NFU Mutual wedi cyhoeddi adroddiad ar y pwnc y gallwch ei lawrlwytho nawr. Ewch ar-lein a chwilio am NFU Mutual Diversification. Yn y cyfamser, os ydych chi wedi mwynhau'r podlediad hwn, tanysgrifiwch trwy eich ap podlediadau arferol, i sicrhau na fyddwch yn colli rhifyn. A tra'ch bod yno, gadewch adolygiad i ni hefyd. Yn y rhifyn nesaf, byddwn yn ymweld â Fferm Portnellan ar lannau Loch Lomond i ddysgu am eu menter i fyd llety gwyliau, gweithgareddau a glampio. Felly am y tro, hwyl fawr gen i, Will Evans, NFU Mutual a phawb yma ar ystâd Rhug yng Ngogledd Cymru.